

Uned 1

Dyma Fi



Cynnwys:

- Sut mae hi?
- Ydw i
- Beth yw dy enw di?
- Dyma fi
- Ble mae dy drwyn di? – Dyma fe
- Ble mae dy lygad di? Dyma fe.
- Ble mae dy walit di? Dyma fe

Caneuon: Cân Enwi
 Cân Cyfarch

Geiriau brawddegau allweddol:

Sut mae hi?

Enw

ydw i

Beth

yw

dy enw di

Dyma Fi

Ble mae?

Gwallt

Llygad

Trwyn



Dysgu iaith

Cyn y sesiwn:

Torrwch y geiriau allweddol i wneud cardiau fflach.
Gwnewch gopi o restr o'r geiriau allweddol hefyd.
Copi o daflen Gweithgaredd Gartref i bob oedolyn.

Yn y grŵp:

Patrwm 1: Sut mae hi?

- 1 Cyfarchwch y dosbarth – helo, sut mae hi?
- 2 Mynnwch fod pawb yn ymateb yn yr un modd – Helo, sut mae hi?
- 3 Dangoswch y geiriau i'r grŵp ar y cardiau fflach.

Patrwm 2: ydw i

- 4 Cyflwynwch eich hunan drwy ddweud : Sarah Elis ydw i.
- 5 Gofynnwch i bob aelod ddweud pwy yw hi / yw e gan ddefnyddio'r un patrwm. Ailadroddwch y frawddeg ar ôl pob un a gofyn iddyn nhw ei hailadrodd wedyn. Gwnewch yn siŵr bod pawb yn ynganu'r frawddeg yn iawn.
- 6 Dangoswch y geiriau **ydw i** ar y cardiau fflach.

Cyfuno patrwm 1 a 2

- 7 Dywedwch: **Sut mae hi? Sarah Elis ydw i.** Gofynnwch i bob aelod yn ei dro/ei thro ddweud yr un brawddegau gan gynnwys eu henwau nhw.

Patrwm 3: Beth yw dy enw di?

- 8 Dywedwch y cwestiwn : Beth yw dy enw di?
- 9 Rhowch ystyr y cwestiwn yn Saesneg – *What is your name?*
- 10 Mynnwch bod pawb yn ailadrodd **Beth yw dy enw di?** ar eich ôl chi yn unigol.
- 11 Dangoswch y geiriau i'r grŵp ar y garden fflach.

Patrwm 4: Ble mae? Dyma Fi

- 12 Esboniwch **Ble mae?** a sicrhau bod pawb yn gallu ei ynganu.
- 13 Esboniwch **Dyma fi.**
- 14 Ewch drwy enwau'r aelodau yn gofyn e.e Ble mae Siân? A disgwyl i'r person cywir ateb **Dyma fi!**
- 15 Gofynnwch i aelodau'r grŵp ofyn ble mae rhywun yn eu tro, a chael ateb.

Cadarnhau

- 16 Tafiwch rywbeth meddal at bob un yn ei dro (cwdyn ffa / clustog..) rhowch gyfle i bob aelod o'r grŵp ddweud ei henw/enw wrth ddal y cwdyn ffa, e.e. Mari ydw i.
- 17 Tafiwch y cwdyn ffa eto ond yr un sy'n derbyn y cwdyn ffa i ofyn "**Beth yw dy enw di?**" gan bwyntio at rywun arall. Honno/hwnnw i ateb.

I Gloi

- 18 Dangoswch y cardiau fflach yn gyflym a gofyn iddyn nhw eu darllen, a dweud beth yw eu hystyr.

Ar gyfer y gweithgaredd grŵp:

- 19 Dangoswch, esboniwch a driliwch ynganiad **trwyn, llygad, gwallt**.



Caneuon

Cân enwi (gwreiddiol)

Pawb i ganu hon yn ei dro gan roi eu henwau eu hunain ynnddi, ac amneidio ar rywun arall i'w dilyn. Os yw'r plant yn ddigon hen, gallan hwythau gymryd eu tro hefyd.

Mari Angharad ydw i

Ma - ri Ang-ha - rad y - dw i. Beth yw dy e - nw di?

Ma - ri Ang-ha - rad y - dw i. Beth yw dy e - nw di?



Caneuon

Cân gyfarch (gwreiddiol)

Un person i godi a chnocio rhywbeth a phawb yn canu'r ddwy linell gyntaf gyda'i gilydd.
Y person sydd wedi codi yn canu'r drydedd llinell, a phawb yn canu'r olaf.

Cnoc Cnoc Cnoc

Cnoc cnoc cnoc. Mae rhyw - un wrth y drws. He -

lo, sut mae? He - lo, sut mae? E - lin sydd wrth y drws.

Rhywun arall i godi a chnocio a phawb yn canu'r ddwy linell gyntaf eto, y person sydd wedi chnocio yn canu'r drydedd, a phawb yn canu'r olaf gan roi'r enw priodol ynddi. Unwaith eto os yw'r plant yn ddigon hen gallant gymryd rhan eu hunain.



Gweithgaredd grŵp

1 Sgwrs rhwng yr oedolion a'r plant yn barau.

Gwnewch chi hyn eich hunan i ddechrau er mwyn gosod esiamp!:

Trwyn Siân (gan bwyntio neu gyffwrdd ag ef), trwyn Gerallt, trwyn Jac, trwyn Wil

Gwallt Siân ..., ..,

Llygad Siân ..., ..,

Trwyn Mam

Gwallt Mam

Llygad Mam

Ble mae trwyn Siân? Dyma fe!

Ble mae gwallt Siân? Dyma fe.

Ble mae llygad Siân? Dyma fe!

Ble mae trwyn Mam?

Ble mae gwallt Mam?

Ble mae llygad Mam?

Dylai'r hwylusydd fynd o gwmpas tra bod hyn yn digwydd i helpu ac ategu'r siarad a'r sbri.

2 Gweithgaredd

Adnoddau: Papur a phensil

Yr oedolion a'r plant gyda'i gilydd yn tynnu llun oedolyn a phlentyn, ac yn siarad wrth wneud hynny. e.e.

Dyma Siân.

Dyma Mam.

Dyma Dad.

Ble mae gwallt Siân?

Ble mae trwyn Siân?

Ble mae llygad Siân?

Yr hwylusydd yn mynd o gwmpas yn porthi'r sgwrsio ac yn ateb unrhyw gwestiwn y bydd yr oedolion yn ei ofyn.



Gweithgaredd gartref

Adnoddau:

- **2 lungopi o'r daflen berthnasol**
2 photocopies of relevant sheet
- **Creonau / lliwiau ffelt / paent**
Crayons / felt pens / paint
- **Cardfwrdd / Cardboard**
- **Glud / Glue**
- **Siswrn / Scissors**

Trefn:

- Ym mhob swigen ysgrifennwch yr enw ac yna **ydw i** – fel petai'r person/anifail yn y llun yn ei gyflwyno ei hunan. Gwnewch hyn ar y ddau gopi.
*In every bubble write a suitable name and then **ydw i** – as if the person/animal in the picture were introducing him/herself. Do this on both copies.*

e.e Pero ydw i.

Suggested names;

dog – Pero	girl – Mair
goldfish – Euryn	bird – Ji-binc (chaffinch)
boy – Siôn	cat – Pws

- Lliwiwch y lluniau ar y ddau gopi gyda'ch gilydd.
Colour the pictures on both copies together.
- Gludwch y taflenni ar y cardfwrdd.
Glue the sheets on the cardboard.
- Torrwch o amgylch y lluniau i wneud cardiau.
Cut around the pictures to make cards.
- Gallwch eu defnyddio i chwarae snap neu barau.
You can use them to play snap or pairs.
- Cadwch nhw mewn poced yn eich **Llyfr Cadw**.
*Keep them in a pocket in your **Llyfr Cadw**.*

